Mae Cyngor Kirklees, a'r trefi a'r pentrefi o fewn ei ffiniau, yn cefnogi cymysgedd unigryw o gymunedau sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o gefndiroedd diwylliannol, crefyddol a rhyngwladol.

Gyda'i gilydd mae'n cymunedau'n cyfleu cyfoeth o brofiad, medrau, dawn a syniadau, sef prif gryfderau'n hardal a'r hyn sydd yn ei gwneud hi'n lle mor arbennig i fyw, gweithio a chwarae ynddi.

Yn ogystal â'r degau o filoedd o deuluoedd sy'n byw yma ers cenedlaethau, mae llawer o deuluoedd eraill o wledydd ar draws y byd wedi dewis ymgartrefu yn Kirklees, gan ymblwyfo yn y bywyd cymunedol, ac mae'r rhain yn chwarae rhan lawn a hanfodol yn natblygiad ein cymuned. Mae llawer ohonynt – yn ail, trydedd a phedwaredd genhedlaeth erbyn hyn – yn byw yma ers amser maith eu hunain a chafodd eu plant eu geni a'u magu yn ein hardal.

Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn rhoi pwys mawr ar annog ei holl gymunedau cyfansoddol i gydweithio, cyd-ddathlu cyraeddiadau, a mwynhau a dysgu gan ffyrdd gwahanol ei gilydd o hybu a chyfrannu at fywyd cymunedol.

Mae gwerthoedd a strategaethau allweddol y Cyngor ei hun yn cydnabod, yn pwysleisio ac yn ymrwymo i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth ar gyfer y gymuned gyfan, ac mor bell â phosibl ar gyfer anghenion unigol y rhai sy'n rhan o'n cymuned.

Mae ein llwyddiant wedi dibynnu, a bydd yn parhau i ddibynnu, ar y ffordd y byddwn bawb yn cofleidio amryfaliaeth wrth helpu i feithrin cymuned gref a chydlynol yn seiliedig ar ddealltwriaeth a derbyn. Yn Kirklees arfaethwn wneud hynny drwy helpu pobl i wireddu potensial eu cyfraniad at eu cymuned leol, ac at y gymuned ehangach, i'r eithaf.

Mae swyddogaeth pob trigolyn unigol yn Kirklees o'r un pwys o ran cyfrannu at greu ardal gadarn, egnïol, economaidd lewyrchus, iach a diwylliannol fywiog – a dyma sail arwyddair y Cyngor 'Together We Serve'.